# Pwyllgor Y Ty

## HC(2)-09-05 (p.5)

**20 Hydref 2005**

### Datblygu staff gwasanaeth seneddol y cynulliad – cynllun cysgodi aelodau cynulliad

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw ceisio cael cymeradwyaeth Pwyllgor y Ty ar gyfer gweithredu Cynllun Cysgodi Aelodau Cynulliad, i helpu gyda'r broses o ddatblygu staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

**Cefndir**

2. Awgrymodd staff y dylid datblygu cynllun o'r fath oherwydd y byddai modd iddynt ddarparu gwell gwasanaethau pe baent yn deall rôl Aelodau'r Cynulliad yn well. Gallai'r cynllun fod yn agored i holl staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

## Materion

**3. Cynnwys y Cynllun Cysgodi**

3.1 Mae'r Cynllun yn cynnig:

- Bod aelod o staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn treulio diwrnod gydag Aelod Cynulliad yn y Cynulliad
- Bod aelod o staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn treulio dau ddiwrnod gydag Aelod Cynulliad yn ei h/etholaeth

**4. Amcanion y Cynllun**

4.1 Bwriad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (fel y nodwyd yng Nghynllun Blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2005-06) yw:

*Darparu'r gwasanaeth gorau posib, o fewn ein hadnoddau, i bob Aelod yn ôl eu disgwyliadau ac ar sail arferion gorau mewn lleoedd eraill. Ceisiwn wella a mireinio'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.*

4.2 O fewn yr amcan hwn y mae’r angen i ddeall anghenion a disgwyliadau Aelodau yn llwyr ac i sicrhau bod staff yn cael digon o gyfleoedd addas i ddatblygu er mwyn iddynt wella’u gwasanaeth yn barhaus.

4.3 Bydd y Cynllun o gymorth i gyrraedd y nod hwn a’r targed a bennwyd yng Nghynllun Blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2005-06:

*Adolygu rhaglen datblygu staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i bwysleisio caffaeliad sgiliau seneddol ac arbenigol eraill, a fyddai’n arwain at ddechrau’r rhaglen yn yr Hydref 2005.*

4.4 Amcan y Cynllun Cysgodi fyddai darparu cyfleoedd i staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ddeall swyddogaethau a gwaith Aelodau’r Cynulliad o ddydd i ddydd, a deall sut y gallent wella’r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt er mwyn rhoi gwell gwasanaeth i Aelodau.

## 5. Ffiniau’r Cynllun

5.1 Byddai’r Aelodau yn cymryd rhan yn y cynllun ar sail wirfoddol. Byddai’r cynllun yn agored i bob aelod o staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a all brofi gwir angen am y math hwn o ddatblygiad. Pan fydd aelod staff wedi nodi’r angen hwnnw, bydd yn rhaid ei bennu fel amcan dysgu yn ei g/chynllun rheoli perfformiad a’i gysylltu’n glir â’i h/amcanion perfformiad.

5.2 Disgwylir i staff a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun gydymffurfio â pholisi’r Cynulliad ar staff sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol a’r Cod Telerau ac Amodau Gwaith. Yn ychwanegol at hyn bydd gofyn iddynt gynnal gwerthoedd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn arbennig cyfrinachedd, didueddrwydd a gonestrwydd.

5.3 Wrth baru staff gydag Aelodau, bydd y Tîm Dysgu a Datblygu yn ystyried tebygrwydd o ran diddordebau neu arbenigedd (e.e. aelodaeth o bwyllgorau penodol/dyletswyddau clercio) ac amcanion dysgu’r unigolyn.

5.4 Byddai Tîm Dysgu a Datblygu Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn dosbarthu gwybodaeth ynglyn â’r Cynllun ac yn cadw cofrestr o’r rhai sydd â diddordeb.

## 6 Mesurau

6.1 Byddai pob aelod o staff a gymerodd ran yn y cynllun yn derbyn ffurflen werthuso i asesu effaith y profiad cysgodi ar y modd y maent yn darparu gwasanaethau ac yn cyflawni eu hamcanion. Byddai gofyn i’r Aelodau a gymerodd ran hefyd ddarparu adborth.

## Cydymffurfio

7.1 Nid yw gweithrediadau ffurfiol y Cynulliad a wnelo â’r cynnig hwn.

7.1 Nid yw’r cynllun arfaethedig yn effeithio ar ddyletswyddau statudol y Cynulliad mewn perthynas â chyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol a datblygu cynaliadwy ac nid ydynt yn effeithio arno.

## Goblygiadau Ariannol

8. Ni fyddai’r cynllun yn golygu llawer o gost. Gall rhywfaint o gostau teithio a chynhaliaeth gael eu hawlio yn ystod cyfnod etholaethol y cysgodi. Byddai’r arian hwn yn cael ei hawlio o gyllideb hyfforddi Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

## goblygiadau O RAN gwell llywodraethu

9. Nid oes goblygiadau uniongyrchol ar gyfer Gwell Llywodraethu. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn hanfodol datblygu staff ymhellach os am barhau i wella’r gwasanaethau a ddarperir. Byddai’r math hwn o weithgaredd datblygu cost isel yn cael effaith wirioneddol yn y tymor byr a’r tymor hir wedi’r gwahanu. Bydd hefyd yn gwella cyfleoedd i staff ac yn helpu i ddatblygu staff a’u cadw.

## Argymhellon

10. Cynigir bod Pwyllgor y Ty yn cefnogi gweithredu Cynllun Cysgodi Aelodau Cynulliad a’i fod yn chwarae rhan allweddol i annog Aelodau’r Cynulliad i gymryd rhan.